YR YMOFYNYDD

RHYDDID · GWIRIONEDD · CARIAD

Y Gwirionedd a'ch Rhyddha chwi.

RHIF 7.] GORFFENAF, 1923 [PRIS 3c.

.. CYNHWYSIAD. ..

AR ADEN FFYDD.

Y GYMANFA GANU.

YMWELIAD A'R HYBARCH R. J. JONES, M.A.

GWIR DDYFODIAD CRIST.

HANNER CAN' MLYNEDD YN OL.

BEDYDD.

MARWGOFION.

MANION AC HANESION.

Llandyssul:
Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul

Pris 3c. y mis; drwy y *Post*, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

Llyfr Newydd allan o'r Wasg.

"HANNER CAN PWYNT DROS UNDODIAETH"

— GAN —

Alfred Hall, M.A.,

CYFIEITHIWYD GAN

C. Oswald Williams, B.A.

110 tudalen. Pris 3c.; trwy'r post 4½c. 13 am bris 12.

Swyddfa'r Ymofynydd, Llandyssul.

Mourning Cards...

Neatly executed.

A Speciality in Portrait Printing.

Samples sent on application.

J. D. LEWIS, YMOFYNYDD OFFICE, LLANDYSSUL.

T. E. Jones & Co.,

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers & Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, &c.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . .
Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] GORFFENAF, 1923. [CYF. XXIII. RHIF 7.

AR ADEN FFYDD.

I BA LE Y FFOAF O'TH WYDD?

PA le y ffoaf, O fy Nuw,
O'th bresenoldeb Di?
Mae natur oll a'i threfnau'n wiw
Yn dweyd dy fod i mi;
Mae tir, mae môr, mae cymyl ban
Yn canu'th glodydd Di'n mhob man.

Mae blodau heirdd y meusydd mwyn,
Mae'r borfa las, mae'r ŷd,
Mae'r adar llawen ar bob llwyn,
Mae ffrwythau'r coed i gyd,
Mae'r nef, mae'r ddae'r, mae pob peth byw
Yn eilio'n deg haelioni Duw.

Mae'r daran erch, mae'r fellten dân,
Mae hyll chwyrn donnau'r lli',
Wrth godi a rhuo'n groch eu grân,
Yn profi mai Tydi
Yw bywyd y bydysawd oll,
I'w cadw yn iawn rhag myn'd ar goll.

Oddiwrthyt Ti nis gallaf ffoi,
Mae'th lygad ym mhob man;
'Does le'n y byd lle gallaf droi
O'th olwg, lawr na'r lan;
P'le bynnag byddo'm llwybrau i,
Bydd yno'th bresenoldeb Di.

Y GYMANFA GANU.

BORE hir ddisgwyliedig oedd bore Llun y ddeunawfed o Fehefin, bore'r Gymanfa Ganu, ond du oedd yr wybren a'r glaw'n diferu'n drwm, a thybiais y buasai'r glaw'n lleithio ysbryd cerddor hyd yn oed, ond ni wneuthum gamsyniad mwy ond odid erioed. Pan droais allan i'r dref yr oedd gwŷr Gellionen a Threbanos wedi cyrraedd, a dylifai'r bobl o bob cyfeiriad. Nid oedd dim i'w glywed ond mwstwr y moduriau, ac erbyn hanner awr wedi deg, yr oedd capel hardd ac eang Soar yn llawn. Arweiniwyd yn ei ddull meistrolgar ei hun gan y cerddor enwog, T. Hopkin Evans, Mus. Bac., Lerpwl, ac yn ol ei dystiolaeth ef ni arweiniodd gymanfa well erioed. Yr oedd y cantorion yn ei law, ac ar y cyfan gwyddent eu gwaith. Llywyddwyd cyfarfod y plant yn y bore gan Mrs. James, Brynhyfryd, a deallwn neges ei chalon er na roes leferydd iddo, a hwyrach fod ei haraith hyawdl yn cyrraedd y nod yn gynt na geiriau. Yn y prynhawn cadeiriwyd gan y cyfaill diymhongar, W. S. Jones, M.A., M.Sc., o Aberystwyth, ac yn yr hwyr gan E. D. Rees, Ysw., o Lanbedr, ill dau yn siarad i'r pwynt. Ni throwyd mo'r Gymanfa'n gwrdd clebran. Rhoes y Parch. T. A. Thomas, Llandyssul, ychydig o hanes y Gymanfa o'r adeg pan gynhaliwyd y Gymanfa Ganu gyntaf yng Nghapelygroes, dan arweiniad y diweddar John Lloyd, o Bantywilco. Ni chafwyd gwell cynulliad er cychwyn y Gymanfa na chanu gwell, a chymryd y farn gyffredin, ond ni hoffwn i'n bersonol dinc ambell dôn nac emyn, a buasai'n fwy amlwg onibai bod y canu cystal. "Llunier i gall hanner gair."

* * * * *

Nid wyf i'n gerddor. Ni fedraf ganu nodyn, ac ni cheisiaf farnu'r canu, ond credaf mai camsyniad ydoedd dadgysylltu ambell dôn ac emyn. Dywedai Mr. Hopkin Evans nad oedd wedi hoffi côr mewn Eisteddfod ddiweddar yn canu "We never will bow down," a gejriau Cymraeg iddi, oherwydd fod tinc y geiriau Saesneg ymhleth ymhob nodyn. Felly gydag ambell dôn ac emyn, a thrueni na buasai'r pwyllgor wedi gadael y briodas hapus oedd rhwng "Dolydd Eang" Hefin Williams ac emyn Ceiriog heb ei thorri. Er dywedyd hynyna ac er gwybod fod gwell *ring* mewn ambell dôn na'i gilydd, yr oedd y deall a'r clust yn pallu, ond deffroai'r canu'n aml rhyw dant mud yn fy enaid i. Dywedir pan genir nodyn ar y crwth y cân y berdoneg mewn cydymdeimlad. Beth bynnag am hyn gwn fod rhywbeth yn canu mewn cydymdeimlad yn fy enaid i, a cheisiwn holi fy hunan am ddylanwad canu ar ddyn.

Darllenais am Ulysses a'i wŷr yn cadw ymhell o gartref, ond nid peryglon y môr na'r gwynt a'u cadwai draw ond cân y *sirens*. Dywedid pan ganai Orpheus ei grwth y peidiai'r dail a siglo, a doi'r

bwystfilod rheibus o'u ffeuau i wrando wedi anghofio'u gwanc ac wedi'u dofi. Y mae Mabinogi'r Cymro'n dysgu'r un wers pan sonir am gân adar Rhiannon,—"Dyfod tri aderyn a dechreu canu iddynt ryw gerdd, ac o a glywsynt o gerdd difwyn oedd pob un wrthi hi," ac yr oedd y gân hon yn dal yn felys am saith mlynedd. Sonir am Abt Vogler yn eistedd wrth yr organ, ac yn gweddio ar i'r organ ufuddhau i ddymuniad ei enaid, a gwelodd yn nerth y gân nad oedd angau ond cysgod, nad oedd y drwg yn ddim ac na chollid dim daioni, a phan amheuid ei weledigaeth dywedodd, "*'Tis we musicians know.*"

* * * * *

Cenir mewn hiraeth a galar yn ogystal ag yn y wledd. Y mae ffynonell y gân yn y teimlad ac apelia at y galon, ond ni ŵyr neb ystyr ei hud, a diddorol ydyw ceisio diffinio miwsig—"adlais y nef, tafod sanctaidd Duw, iaith angelion, cariad yn chwilio am air, allwedd arian i ffynnon o ddagrau, moddion i'r galon ddrylliog, plentyn gweddi ond cydymaith crefydd." Rhwydd y medrid pentyru geiriau'n ofer, ond gwyddom y medr dyneru'r galon, melysu galar, a'n rhyddhau o flinder ac ofn. Chwery a'r teimlad fel y myn. Gwrola ddyn nes tori allan i ddywedyd, "We never will bow down." Gwelwn brydferthwch y cread a champwaith Duw, a molianwn ei enw, "Bendigedig fyddo Arglwydd Dduw Israel." Ni fedrwn lai na sylwi mai byr a brau yw bywyd dyn, ac nid oes ini ond hyderu yn Nuw, "Gwywa y gwelltyn, syrth y blodeuyn, ond gair ein Duw ni a saif byth."

* * * * *

Dyna gyweirnod y canu, ac iechyd i ben a chalon dyn oedd bod yno. Tua diwedd y Gymanfa taflwyd awgrym o gasgliad tebig i'r casgliad o'r blaen i sylw'r eglwysi, a chredaf ei fod yn awgrym digon hapus ac ymarferol, ond credaf na ddylesid dwyn casgliad felly allan ond ar un amod, ei fod i bontio'r gagendor rhyngom a Llyfr Emynau Newydd. Y mae'r pwyllgor wedi mynd i gysgu, a chredaf fod yr eglwysi'n dioddef. Y mae'r "Perlau" allan o brint er's blynyddoedd bellach. Y mae'r casgliad wedi'i ganu nes ei fod bron bob yn ddalen, ac eto nid yw'r eglwysi'n fyw i'r angen. Nid anheg, mi gredaf, er mwyn i'r eglwysi wybod ac ystyried, ydyw eu hysbysu y cynhygir yng Nghyfarfodydd Blynyddol yr enwad yn Rhydygwin, mis Awst nesaf fod y Llyfr Emynau Newydd i'w ddwyn allan erbyn Haf 1926 er dechreu o ddifrif ar y gwaith, a hynny'n ddioedi.

Nid yw hynyna ond rhwng cromfachau o weled mai amcan Cymanfa Ganu ydyw perffeithio caniadaeth y cysegr, ac ni fedrir gwneuthur hyn heb lyfr emynau o ryw fath. Hoffwn pe bai tân y Gymanfa'n llosgi ynghalon y pwyllgor er iddynt symud. Beth bynnag am hyn, yr oedd llwyddiant y Gymanfa'n ddibetrus, a

theilyngai gweinidog a chynulleidfa Soar, a'r ddwy fu wrth yr Organ, ein diolchgarwch gwresog a estynwyd iddynt gan y Parch. David Evans a'r Henadur Josiah Jones, ac nid teg anghofio ysgrifennydd diflin y Gymanfa er's blynyddoedd bellach.

Y mae swn y canu yn fy nghlustiau eto, a chredaf mai dyma'r *Red Letter Day* yn ein hanes yn y Sir. Ni fedrai ond un weddi ddyfod o'r galon, a honno wedi'i phuro'n sŵn y gân—

"Great Master! touch us with Thy skilful hand,
Let not the music that is in us die."

T. O. W.

YMWELIAD A'R HYBARCH R. J. JONES, M.A., BRONIESTYN, ABERDAR.

Yn ystod ymweliad brysiog ag Aberdar ychydig wythnosau'n ol, amheuthun oedd cael ymweliad a'r boneddwr uchod. Prin oedd famser, ond petai'n brinach rhaid oedd galw. Nid oedd y croeso'n oer nac yn ffurfiol ychwaith, er nad oeddwn ond un o'r dyrfa disgyblion a fu iddo.

Y mae llawer blwyddyn bellach er pan euthum, yn laslanc amrwd ddigon, i "Ysgol Jones," neu, a gosod y sefydliad allan yn ei deitl mwy gweddus ac urddasol, "Trecynon Seminary." Yr oedd hynny cyn dyddiau'r Ysgol Sir. Ceid yn y "Seminary" felly gwmni o ddisgyblion tra chymysg; plant ieuanc, allasent fod o wyth i ddeg oed; llanciau byw iawn i fyny hyd 16 a 18 oed; ac, uwchlaw hynny, nifer o ŵyr ieuainc sybr, myfyrgar, oedd yn "dechreu pregethu," ac yn dechreu tyfu cysgod o farf yr un pryd. Enwad? Nid oeddem yn adnabod enwad yno, ac eithrio y "pregethwyr." Iddynt hwy y cwestiwn oedd I ba goleg yr oeddynt yn teithio? Ceir nifer o'r rheiny heddyw yn wŷr pwysig yn eu gwahanol gylchoedd, a nifer, ysywaeth, wedi oes fer o ddefnyddioldeb eisoes yn huno yn y fynwent.

Cefais fy hen athro, er ei fod o fewn i ychydig wythnosau i'w bedwar ugain ag wyth, yng nghanol ei lyfrau. Dyna'i le erioed, a dyna'i elfen. Bu am bedair blynedd ar ddeg yn olygydd YR YMOFYNYDD, misolyn Cymraeg yr Undodiaid, ac am ddeugain mlynedd ysgrifennodd fwy i'r cyhoeddiad hwn na neb arall. Bu'n cadw ysgol am dros ddeng mlynedd ar hugain, ac yn weinidog ar Eglwys yr Hen Dy Cwrdd, Trecynon, am lawer mwy na hynny. Swnia'r cyfnodau'n feithion, ond llanwodd fy hen athro hwy hyd yr ymylon â gwaith. Nid wyf yn cofio ei weld yn gwylltio nac yn brysio erioed; nid wyf ychwaith yn cofio'i weld yn segur. Ar wahan i'w waith golygyddol, hoffai gyhoeddi llyfr neu bamffled yn awr ac eilwaith, a gellir bod yn sicr y ceir gwaith glân a gofalus ar yr hyn a ddaw o'i ddwylo. Cefais flas ar ddarllen ei araith o Gadair Undeb yr Undodiaid Cymreig ar "Y Gwyliedydd: beth am y nôs?" Tameidyn blasus yw ei "Jeanette d'Arc," a cheir olion llafur dyfal a maith ar ei "Unitarian Students." Edrydd yn hwn hanes Myfyrwyr Undodol Coleg Caerfyrddin o 1796 hyd 1901. Anodd fyddai cwrdd a

dyn o feddwl mwy syml ac unplyg, er ei fod yn graff a dysgedig. Ces aml brawf o'r ysbryd plentyn sydd iddo. Unwaith gwnaeth gytundeb â chymydog a olygai swm sylweddol o arian. Ymddibynodd yn hollol ar air ei gyd-ddyn, ac arwyddodd y cytundeb cyfreithiol heb ei ddarllen. Pan awd i ddwyn y cytundeb i weithrediad cafodd ei fod wedi ei "wneud" yn drwm. Yr oedd wedi ei siomi, ond ni ddywedodd fawr ddim. Arferem dalu y swm enfawr o chweigen y chwarter blwyddyn am ein haddysg iddo, ac nid peth dieithr oedd iddo droi'r chweigen yn ol i lanc o student. Ie, yno y byddem fore a phrynhawn, mewn lle clyd a chynnes, yn cael sylw manwl i'n holl wersi, mewn Groeg a Lladin, Saesneg a Ffrangeg, Mesuroneg a Rhifyddiaeth, Hanes a Gwyddoniaeth, a pha beth bynnag a fyddai'n ofynol ar gyfer mynd i'r coleg neu i basio Matriculation Llundain, a'r cwbl am ddeg swllt pan delid ef. Heblaw "mishtir," deuai Mrs. Jones i mewn yn fynych at wŷr y Ffrangeg a rhai pethau ereill. Synnais ganwaith sut y gallodd ef gwmpasu gwaith yr ysgol, a'r dosbarthiadau mor lliosog, ac eto, aed trwy'r gwaith, ac ni cheid byth olion brys. Nid wyf yn cofio erioed anhawster gyd a disgyblaeth ychwaith. Gwir fod ei edrychiad yn llym ar adegau, ac y medrai ddweyd peth llym pryd y tybiai fod ei ddisgybl yn brin o fod yn onest ac anrhydeddus gyd a'i waith. Er nad wyf yn cofio iddo son llawer am y peth, yr argraff sydd arnaf yw ei fod ef ei hun yn ymgorfforiad o anrhydedd (*honour*), a'i fod yn disgwyl ymddygiad anrhydeddus oddiar ddwylo'r sawl oedd o'i gwmpas.

Yr oedd ymhell o fod yn gaeth i ffurfiau yn ei ddull o addysgu. Gosodai bwys ar dynnu allan alluoedd ei ddisgybl. Gosodai bwys hefyd ar annibyniaeth i ysgrifennu traethodau arnynt yn ystod ein gwyliau. "Yr Archesgob Cranmer" oedd y pwnc a gafodd un, a chofus yw gennym y feirniadaeth a gaed ar y traethodyn hwnnw. Beth a ellid ddisgwyl, wrth gwrs, ond i'r *student* draethu ar y Merthyr Cranmer gydag edmygedd dibetrus a diameu. Digwyddodd i'r awdur ddweyd nad oedd y ffaith i ddyn gael ei losgi, o angenrheidrwydd, yn ei wneud yn ferthyr. Cyfeiriodd hefyd at eiriau yr hen grawen, y Frenhines Elisabeth pan ddywedodd: "*Whether Catholic or Protestant he must burn.*" Heb aros dim ar y pryd gyda'r pwnc mewn dadl, llongyfarchodd yr Athro ei ddisgybl yn galonnog ar ei feiddgarwch a'i annibyniaeth.

Ymhoffai'r Parch. R. J. Jones mewn hanes a hynafiaethau, a mawr yr hwyl a gawsem wrth ei wrando'n traethu ar hynafiaethau ac enwau y cylch. Taflai swyn i'r hen enwau lleoedd, a gwnai i Gomin Hirwaun a Chomin Aberdar droi'n fyw o'n blaen dan ddylanwad ei hudlath feistrolgar. Soniai am frwydr Iestyn ap Gwrgant a Rhys ap Tewdwr ar Hirwaun Wrgant fel peth a ddigwyddasai ychydig ddyddiau yn ol. Gwelir enw Iestyn yn enw tŷ ein hen ffrind. Hoffai son am hen feirdd y cylch, ac yn ddiarwybod inni cynhyrfid ein diddordeb yn fawr yn y pethau hyn.

Yn nyddiau byr y gaeaf, ni byddai'n werth cynneu'r lampau gan y byddai'r ysgol yn torri i fyny tua phedwar o'r gloch. Am ryw hanner y prynhawnau hyn, arfer yr ysgolfeistr oedd rhoddi inni ddarlithiau byrion ar bynciau oedd braidd yn anghyffredin a diarffordd, megis egwyddor pendil y cloc, y pwys, y droedfedd, a'r mesurau safonol ereill a gedwir gan y Llywodraeth; yr hen ddull o ddechreu'r flwyddyn ym mis Mawrth. Bu'r darlithiau hyn yn agoriad meddwl i lawer o honom, ac anodd dweyd i ble yr arweiniasant.

Ychydig groeso a geid yn "Ysgol Jones" i wr segur, ond nid oedd ball ar yr amynedd a arddangosid tuagat yr ymdrechgar. Dymunol fuasai gennym weld rhywun yn ysgrifennu hanes yr hen Academy barchus, oblegid y mae iddi hithau bennod ddiddorol yn hanes Cymru. Cyn dyddiau'r ysgol sir llenwid bwlch

pwysig gan lu o ysgolion rhagbaratoi o'r fath, a cheid math ar draddodiad fod a fynno gweinidogion Undodaidd yn arbennig â hwy. Ni raid ond enwi ysgolion Llandyssul, Pontsian, Cefncoedcymer, a Threcynon i brofi hyn.

Ar wahan i'w waith llenyddol ac addysgol, llanwodd ein hen gyfaill le pwysig ym mywyd Aberdar, ac er taweled a mwyned ei ysbryd, arddangosodd haelfrydedd a gwroldeb nid bychan lawer tro. Y tro cyntaf erioed i mi ei weld oedd yn cadeirio mewn darlith yn y Temperance Hall, Aberdar. Y darlithiwr oedd y diweddar Charles Bradlaugh, A.S. dros Northampton. Rhyw gorwynt o Radical ac Anffyddwr oedd hwnnw, ac enillodd gryn boblogrwydd yn Nhy'r Cyffredin. Gwrthododd gymryd y llw arferol, a threfnwyd cyfraith newydd, dan arweiniad Gladstone, i'w gwneud yn bosibl iddo eistedd yn y Tŷ ar delerau ereill. Daeth i Aberdar i ddarlithio ar Flwyddaliadau Gwŷr Ucheldras Prydain. Anodd oedd cael cadeirydd, ond gan mai darlith wleidyddol a roddwyd ac nad oedd a fynno crefydd a'r fusnes, daeth y Parch. R. J. Jones i'r adwy'n ddiofn. Wrth gwrs, bu condemnio arno, ond cyfrifai ef nad oedd yn gwyro o'i le, ac felly glynai wrth ddatganiad ei gydwybod ei hun mewn tawelwch.

Nid yn fynych y ceir cymeriad sy'n gyfuniad mor helaeth a llawn o rinweddau; cryfder a thynerwch; diwydrwydd a thawelwch; eangder gwybodaeth a gofal am fanylion; eangfrydedd a ffyddlondeb i egwyddor, ac, yn ben ar y cwbl, purdeb ysbryd a symledd a phrydferthwch bywyd.

HEN DDISGYBL.

GWIR DDYFODIAD CRIST.

Mae yna syniad wedi ffynnu yn y byd Cristionogol drwy'r oesau—syniad sylfaenedig ar lythyren yr Ysgrythyr—fod Crist i ddod i deyrnasu ar y ddaear gyda'i seintiau, mewn modd gweledig i'r llygad o gnawd, a chyda twrf a therfysg yn yr awyr—i'r amcan o sefydlu teyrnas gwirionedd a chariad.

Nid yw'r byd erioed wedi credu digon yng nghallu cyfryngau moesol ac ysbrydol yn unig i droi'r byd at Grist.

Dysg Cristionogaeth i'r Iesu ddod i achub y byd, a gorchfygu pechod trwy ddatguddio gwirionedd a chariad Duw, trwy faddeu i'w elynion, a thrwy farw drostynt ar y Groes. Daioni yw'r gallu i orchfygu drygioni, medd Cristionogaeth. Nid yw Teyrnas Crist o'r byd hwn. Teyrnas Dduw yw cyfiawnder, tangnefedd, a llawenydd yn yr Yspryd Glân. Nis gall gwaed a chnawd weled Teyrnas Dduw. Gwirionedd, cariad, a daioni, ydynt nerthoedd mawrion Cristionogaeth, i'r rhai mae hi'n ddyledus am yr oll o'i gwir lwyddiant. Os yw Crist i deyrnasu, mae'n rhaid iddo deyrnasu drwy y cyfryngau hyn. Os y plŷg pob glin iddo, mae'n rhaid iddynt blygu oddiar argyhoeddiad a chariad. Os y gorfodir dynion i blygu trwy ddatguddiad o rhyw allu anorchfygol, nid ydynt yn plygu i Grist, ac yn ei addoli ef: plygant i ffôrs, ac addolant hwn. Ymddengys hyn yn hollol eglur. Os rhaid yw i Grist—cynrychiolydd y gwirionedd a'r cariad dwyfol yn y byd—gael ei orseddu'u y diwedd, gan allu an-

feidrol ac anorchfygol, amlwg yw mai nid Crist fydd yn teyrnasu, ond y gallu anorchfygol hwnnw. Hyd hyn, bydd yn rhaid i Grist a Christionogaeth gydnabod eu bod wedi methu, ac ymneilltuo, fel y b'o i'r hen oruchwyliaeth, gallu anfeidrol ac anorchfygol gymeryd eu lle.

Eto, rhaid yw addef fod gan y Testament Newydd lawer i'w ddywedyd am ddyfodiad Crist. Pan ddywedodd ei ddisgyblion wrth Iesu, "mynega i ni . . . pa arwydd fydd o'th ddyfodiad, ac o ddiwedd y byd" —neu'n hytrach o ddiwedd yr oes, sef diwedd yr hen oruchwyliaeth, oherwydd nid oedd ef wedi dod eto fel y Crist, y brenin; yr oedd ef wedi ymddangos fel proffwyd yn unig, fel unrhyw broffwyd Iddewig arall.

Nid yw'r syniad o *ail*-ddyfodiad Crist yn y Beibl. Nid oes yno ond un dyfodiad yn unig — hynny yw, ei ddyfodiad fel Crist, y brenin. Dyna'r dyfodiad y dywedir am dano ym mhob man yn y Testament Newydd. Pan äi ef oddiamgylch Galilea, gan bregethu, nid oedd ef wedi dod eto fel y Crist, ond fel proffwyd mawr. Pan y bu farw ar y Groes, nid oedd ef wedi dod fel y Crist, fel y brenin, ond fel archoffeiriad mawr. Pa bryd y delai ef fel y Crist, fel y brenin; pa bryd y delai ef i deyrnasu ar y ddaear, i osod i lawr ei elynion, i ddyrchafu ei gyfeillion. Dyna'r hyn y carent hwy ei wybod.

A chan fod Iesu'n gallu rhagweled y drygau a'r gwaeau a ragflaenent ddyfodiad ei deyrnas, ceir ganddo ddarluniadau ohonynt mewn iaith llawn o deimlad dwys.

A phan ddesgrifiai Crist ei ddyfodiad a'r digwyddiadau a'u rhagflaenent, arferai ef iaith farddonol yr enaid. Nid yn unig llefarai mewn ffigyrau, fel Dwyreiniwr, ond hefyd fel proffwyd, i'r hwn yr oedd pethau allanol, fel y maent bob amser, yn arwyddion o sylweddau mewnol. Deallai rhai ef yn llythyrennol y pryd hwnnw, a dealla rhai ef yn llythyrennol yn awr. Pan ddywedodd ef wrthynt fod yn rhaid iddynt fwyta ei gnawd ef ac yfed ei waed er cael eu llesoli ganddo, cawsant eu synnu, a dywedent, "Pa fodd y dichon y dyn hwn roddi i ni ei gnawd i'w fwyta?" Meddai'r Iesu mewn ateb, "Y cnawd nid yw'n llesâu dim; y geiriau yr wyf fi'n ei llefaru wrthych, yspryd ydynt a bywyd ydynt." Meddai'r Apostol, "Mae'r llythyren yn lladd," hyd yn oed llythyren y Testament Newydd. Ond er hynny, o'r dydd hwnnw hyd y dydd hwn, mae rhyw bobl wedi glynnu wrth lythyren ei eiriau yntau. Gan mai yspryd yw Crist, ei unig ddyfodiad posibl yw dyfodiad ysprydol. Pe byddai i Grist ddod mewn gwaed a chnawd, nis gwyddom pa les wnelai hynny i ni. Nid oedd Paul am adnabod Crist yn ol y cnawd, meddai efe. Mae'n rhaid i'w ddyfodiad fod yn gwbl ysprydol, os yw i'n bendithio ni. Yr angylion a alwant ei etholedigion o bob cwr tan y nef, ydynt, yr argyhoeddiadau nerthol hynny a ddygant holl bobl y byd i undeb ffydd a gwybodaeth Mab Duw.

Yr utgorn nefol yw llais gwirioneddau, a'n deffroa ni o gwsg difaterwch ac anghrediniaeth. Nid yw'r twrf mwyaf yn yr awyr yn beth mor ogoneddus a'r llais distaw, main, yn y galon, a ddeffroa edifeirwch a gobaith. O'i iawn ddeall, mae dyfodiad Crist yn beth gwastadol a difwlch. Na safer gan edrych i fyny i'r awyr gan geisio am dano yno, ond edrycher i fewn i'n calonau ein hunain, a cheir ef yno'r awr hon —nid yfory. Cymered yfory ofal ohono ei hun. "Yn awr yw'r amser cymeradwy, heddyw yw dydd yr iachawdwriaeth." Daw ef atom bob dydd, pan yr arweinir ni i feddwl yn iawn, i deimlo'n iawn, ac i wneud yn iawn.

Teimlai Crist fod yna gysylltiad mor agos rhyngddo ef a'r efengyl, fel y gwyddai, lle bynnag yr elai hon, y byddai yntau yno hefyd. Yr oedd yn byw yn ei ddisgyblion ac yn Nuw, "Myfi ynddynt hwy, a hwythau ynof fi," medd Iesu.

Dywedai Paul mai nid efe ei hunan oedd yn byw, ond mai Crist oedd yn byw ynddo, yn guddiedig ddyn ei galon. Mae gennym ninnau hefyd hawl i deimlo, pryd bynnag ein dyrchefir uwchlaw i ni ein hunain, gan unrhyw amcan teilwng, gan unrhyw allu a'n cynorthwya i wneud gwir ddaioni i'n cyd-ddynion, fod Crist yn awr yn byw ynom, ac felly yn nes atom na phe caem ddatguddiad gweledig ohono yn yr awyr. Daw y gwir Grist atom bob dydd o'n bywyd, os yr ewyllysiwn hynny.

Pan yn mynd at ein gwaith, ond i ni ofyn i Dduw am yr yspryd iawn, ond i ni ddechreu'r dydd gyda'r dymuniad i fod o wasanaeth i rywun, i fod mewn yspryd o wir gydymdeimlad a'r rhai oddiamgylch i ni, a threulio y dydd felly, gan ymddiried ym mhresenoldeb Duw, a'i help, i'n galluogi i wneud rhyw ddaioni i'n cyd-ddynion, ni a gawn Grist gyda ni drwy'r dydd. Mae'n wir nas gwelir gennym unrhyw groes ddisglair yn yr awyr, ond cynorthwyir ni i ddwyn ein croes ddaearol ein hunain, a dygir ni i gysylltiadau caredig ac hapus ag eraill, a byddwn alluog i'w cynorthwyo mewn ffordd syml, gan roddi a derbyn cydymdeimlad. Hyn yw gwir ddyfodiad Crist atom ni ; a chlywir ef gennym felly'n dywedyd, "Yn gymaint a'i wneuthur o honoch i un o'r rhai hyn fy mrodyr lleiaf, i mi y gwnaethoch." Daw Crist hefyd yn nigwyddiadau mawrion hanes, a gyfrannant at gynnydd yr hil ddynol.

Pan yr amgylchwyd Jerusalem â byddinoedd, a phan y tywalltwyd gwaed y genedl fel dwfr ; dywedir fod llysoedd eang y deml yn llithrig gan waed, ac o'r diwedd lapiwyd y lle sanctaidd gan fflamiau — er hardded a godidoced yr olwg arno— yr oedd hyn hefyd yn ddyfodiad Crist, oherwydd allan o'r pethau echryslawn hynny, daeth dydd newydd a gwell. Aeth disgyblion Crist, ar ol eu gyrru allan o Judea, i bob man, gan bregethu'r gair. Daeth Cristionogaeth, yn lle aros yn sect Iddewig, yn grefydd gyffredinol.

Dywedwn eto, na ofynner pa bryd y daw, ac yr ymddengys Crist. Mae Crist yma'n awr, ac yn curo wrth ddrws ein calonnau am agoriad. Cuddiedig nid yw, nac ymhell. Pryd bynnag yr ymdrechwn ni wneud ein dyledswydd, gan ymddiried yn hwn ; pryd bynnag yr helpwn ac y cysurwn ni unrhyw enaid blinedig ; pryd bynnag y maddeuwn ni i'r rhai a'n drygant, ac y gwnawn ni dda i'r sawl a'n casant ; pryd bynnag y taflwn ni allan o'n calon genfigen ac uchelgais anheilwng, a gwag-ogoniant gwael, gan gyflwyno ein hunain i wasanaeth pob daioni, a gymeradwyir gan ein meddwl a'n calon,—ni a ganfyddwn fod Crist wedi dod eisioes ; oherwydd, dyfod y mae ei awr ef bob amser, ac yn awr y mae hi.

C. C.

'HANNER CAN MLYNEDD YN OL.'

Yr oedd Golygydd y '*Cambria Daily Leader*,' Abertawe, wedi addaw rhifyn anarferol fawr o'r newyddiadur hwnnw ar y 18fed o Fai, a chan feddwl cael hanes manwl o Arddangosfa Amaethyddol y Bath & West, prynais gopi. Wrth ei ddarllen syrthiodd fy llygaid ar nodyn yn dwyn y penawd uchod, ac nid bychan fy syndod pan welais mai cyfeirio yr

ydoedd at gyfarfodydd pregethu yng Ngellionen O'i gyfeithu dyma fel y dywedai—

'Cynhaliwyd cyfarfodydd ail-agor Capel Gellionen, ar y 7fed a'r 8fed o Fai, pan y pregethodd y Parch. W. James,* B.A., Capel Heol-y-Felin, Aberdar, a'r Parch. Rees C. Jones, Cribyn, Sir Aberteifi. Eraill a gymerodd ran oedd y Parchn. Proffeswr Evans, Coleg Caerfyrddin; A. Ransom, Abertawe; Thomas Thomas, Pantydefaid; E. W. Lloyd, Cwmbach, Aberdar; a W. Rees, Rhydygwin. Mynychwyd y cyfarfodydd gan y glowyr a gweithwyr eraill y gymydogaeth, ac yr oedd y capel yn anghysurus o lawn ym mhob oedfa. Yr oedd yr hen gapel a'r gladdfa, ynghydag erw o dir cyffiniol, newydd eu prynu gan y gymdeithas o Undodiaid a addola yno, a'r eiddo wedi ei osod yng ngofal ymddiriedolwyr er budd i'r gymdeithas. Yr oedd y capel hefyd wedi ei adnewyddu'n helaeth, a llawer o gyfnewidiadau wedi eu gwneud ynddo, ac ymddangosai'n ddestlus a chyffyrddus. Y gweinidog oedd y Parch. J. Evans."

Er y cyfarfodydd hyn y mae llawer tro ar fyd wedi cymeryd lle, a chydag un eithriad y mae'r holl weinidogion parchus a enwir wedi blaenu, ond i'r sawl a'u hadwaenai y mae eu henwau'n perarogli, a'r cof am danynt yn fendigedig. Yn eu dydd dalient y faner Undodaidd yn uchel a phregethent efengyl rhyddid a brawdgarwch yn ddifloesgni yn wyneb llawer o anhawsterau a rhwystrau. Gan mor gyffredin yn awr y tŷn a'r modur y mae lle i ofni mai prin y sylweddola y tô presennol o Undodiaid hunanaberth a llafurus gariad y tadau. Tua'r adeg y cyfeirir ati uchod yr oedd cyfleusterau teithio yn brin iawn, ac arferid cerdded i gyfarfodydd yr enwad o Geredigion i Forganwg, ac o Forganwg i Geredigion. Gymaint ydyw fy edmygedd o'u gwasanaeth i achos crefydd rydd fel y temtir fi'n fawr er mwyn rhai iau i ymhelaethu a chofnodi rhan o'r hyn a wn am eu llafur a'u ffyddlondeb. Fodd bynnag, gan mai i ddiben arall y cymerais yr ysgrif-bin rhaid ymatal. Y mae'r wers yn amlwg—llunier i gall hanner gair.

J. S. W.

* Mwy adnabyddus fel y Parch. William James, Llandyssul. Gwasanaethai Mr. James ar y pryd yn Aberdar, yn absenoldeb y Parch. R. J. Jones, M.A. drwy afiechyd.

BEDYDD.

MEHEFIN 24ain, yng Nghapel Caeronen, gan y Gweinidog, gyda chynorthwy y Parch. R. C. Jones, bedyddiwyd Dafydd Ieuan Berret, etifedd bychan y Parch. a Mrs. D. Cellan Evans, Northampton.

O'r braidd y gall fod mwy o wahaniaeth yn Ego neu hunaniaeth gwahanol ddynion nag a amlygir yng nghwrs blwyddyn mewn un dyn.

MARWGOFION

EBRILL 2, Hannah, annwyl faban Thomas a Margaret Harries, Rhydcaisfach, ger Cribyn. Claddwyd ym mynwent Cribyn.

EBRILL 26, bu farw Evan Evans, Vale of Tivy, Llanybyther, gynt o Lechwedd-deri-isaf, yn 39 oed. Mab ydoedd i'r diweddar Evan ac Anne Evans, Maesmynach, ger Cribyn, ac ŵyr i frawd yr enwog Daniel Ddu o Geredigion. Bu am rai blynyddoedd yn aelod o Fwrdd Gwarcheidwaid, a Chyngor Dosbarth Llanbedr, a dygid tystiolaeth uchel iddo gan ei gyd-aelodau fel aelod defnyddiol. Bu'n gystuddiol am amryw fisoedd. Gadawodd briod a phedwar o blant, ynghyd a dau frawd a dwy chwaer, mewn galar dwys ar ei ol. Claddwyd ei weddillion ym mynwent Capelygroes y dydd Mawrth canlynol, y cynhebrwng yn anghyhoedd. Gweinyddwyd yn y tŷ gan y Parch. D. A. Jenkins, M.A., Ficer Llanybyther, ac yn y capel gan weinidog y lle.

EBRILL 28, yn 77 mlwydd oed, Evan Jenkins, Gwernfryn, Cwrtnewydd. Perthynai i linach o bobl ag y mae amryw o honynt, fel efe, wedi bod, ac hefyd amryw o honynt yn awr, yn ofnaid. Parhaodd i ddilyn ei alwedigaeth hyd yr analluogwyd ef tua thair blynedd yn ol. Bendithiwyd ef a chorph cryf ac iach; ond goddiweddwyd ef gan afiechyd a'i gwanychodd, ac a'i cyfyngodd i'w dŷ am hir amser. Gweiniwyd arno yn amyneddgar ac yn dirion gan ei briod, ac y mae iddi heddyw y cysur o fod wedi gwneud ei rhan yn dda tuag atto. Claddwyd y Mercher canlynol yn Nghapel y Bryn. Gwasanaethwyd gan y Parch. Lewis Williams, a chynorthwywyd gan y Parchn. E. Glyn Edwards, a T. O. Williams, M.A. Nerth a gaffo'r weddw a'r ferch i ddal i fyny.

EBRILL 29, yn y Presbyterian Hospital, New York, William Price Evans, yn 51 oed. Ganwyd ef yn Rhydcymerau, ger Llanybyther, ac er wedi ei ddwyn i fyny yn Eglwys Fethodistaidd ei bentref genedigol, eto hannai o gyff Undodaidd, ac yr oedd yn aelod ffyddlon o Eglwys y Messiah yn ninas New York, yr hon fugeilir gan y Parch. John Haynes Holmes. Ymfudodd i'r Talaethau ymron ugain mlynedd yn ol talai ymweliad mynych a Chymru, a gwelwyd ef yng nghyfarfodydd Bwlchyfadfa yn haf 1920. Bwriedir dwyn ei lwch yn ol i Gymru a'i osod i orffwys ym mynwent Rhydcymere.

[Blin gennym glywed farw y cyfaill enwir uchod. Ar ddamwain y cyfarfyddasom ag ef un hwyr ar Boston Common yn 1907. Clywed y diweddar Jenkin Lloyd Jones a minnau yn siarad Cymraeg dynnodd ei sylw. Cawsom adnewyddu'r gyfeillach pan ydoedd ar ymweliad a'r wlad hon dair blynedd yn ol.—*Gol.*]

MAI 3, William Glyn, anwyl faban Simon ac Amelia Davies, Green Grove, Felinfach, yn fis oed. Claddwyd ym Mynwent Llanfihangel Ystrad. Gweinyddwyd yn y ty gan y Gweinidog, ac ar lan y bedd gan y Parch. W. Morgan. Er i Glyn gael ei symud yn fore, eto gwag yw ei le yn nghalon y teulu, a chydymdeimlwn a hwy yn hyn. "Nid yw ewyllys eich Tad yr hwn sydd yn y nefoedd, gyfrgolli yr un o'r rai bychain hyn."

MAI 9, yn 75 mlwydd oed, Mrs. Anne Davies, priod Mr. William Davies, Llwynifan House, Llanybyther. Nid oedd ond ychydig amser er pan y dechreuodd deimlo yn anhwylus, ac ni fu ei chystudd ond am ychydig wythnosau. Yn Cornel, Llanllwni, yr oedd ei rhieni yn byw, ac yno y mae ei hunig frawd yn awr. Yn Llwynifan, Cellan, y bu hi a'i phriod yn byw hyd iddynt ymneillduo o'r fferm, a dod i drigianu yn Llanybyther. Cawsant dros ugain mlynedd o

fywyd tawel yn y lle olaf hwn, a chredwn iddo fod yn fywyd dedwydd iawn. Un o dymher dawel ac o ysbryd hynaws iawn ydoedd, ac yr oedd y nodweddion hyn yn rai sefydlog ynddi, fel yr oedd bob amser yr un fath. Ei thuedd oedd edrych ar ragoriaethau pawb, a meddai ar deimlad parchus tuag at bawb. Enillodd hynny barch mawr iddi hithau ym mhlith ei chydnabod. Yr oedd yn gartrefol iawn, ac yr oedd ei gofal yn fawr am ei theulu; gan hynny y teimlir gwagder a cholled fawr gan ei theulu ar ei hol. Yr oedd yn aelod ffyddlon yn Eglwys y Bedyddwyr yn Aberduar. Claddwyd y Sadwrn canlynol, yn Aberduar; gwasanaethwyd gan y Parch D. C. Griffiths, Aberduar, a chynorthwywyd gan y Parchn. D. Collwyn Morgan, ac L. Williams, Alltyblacca. Gadawodd briod a merch a mab yng nghyfraith, ynghyd ag wyrion, a brawd a chwaer mewn galar dwys ar ei hol.

Mai 18, yn 4½ mlwydd oed, bu farw Elizabeth Gwladys, merch fechan Mr. a Mrs. Evans, Gwastod, Pencarreg, ar ol cystudd caled—twymyn ar ol twymyn yn siglo'r bywyd bychan. Geneth ieuanc, ffraeth ydoedd, a gwelir ei lle yn wâg ar yr aelwyd. Y dydd Mawrth dilynol, daearwyd yr hyn oedd farwol ohoni ym mynwent Eglwys Brondeifi. Gwasanaethwyd yn y ty gan y Parch. Daniel Jones, Caersalem, ac yn y Capel ac ar lan y bedd gan y Parchn. Rees Cribyn Jones a T. O. Williams. Y Sul dilynol, pregethwyd ei phregeth goffa ym Mrondeifi, gan y Gweinidog. Gadawodd dad a mam a chwiorydd bychain mewn hiraeth a dagrau.

Mai 18, William Davies, Ardwyn, Derw Road, Trebanos, yn 53 mlwydd oed. Glowr, wrth ei alwedigaeth, oedd yr uchod,—hyd ei fedd. Deallwn iddo gerdded Gellionen tua Glofa Glyncoch am dros ugain mlynedd yn ddi-dor. Ond ar y dyddiad nodwyd, a dydd o lafur yn ymagor o'i flaen, cyfeiriodd y bore tua'i siwrne arfer, wedi dweyd "bore da" ar y trothwy, byth i ddychwel yn fyw, a chafodd ei hun mewn perffaith gydgord a'i weithle, er yn dra pheryglus. Ymrodd am fywyd yn ofalus, ac yr oedd ei ofalwch yn ddihareb ym mhob man, ond megis ar hanner dydd, bu gwaedd, a dychryn, ac wylo,—cafwyd ef dan y cwymp, wedi ei gyflawn orchuddio bron,—ac efe a anadlodd ei olaf ym medd y lofa a hoffodd gymaint. Fy mrawd anwyl, O na fuaswn yno gyda thi, i dy helpu rywfodd, a chael gair gennyt, cyn it' fado. Pryder heddyw leinw 'mron, wedi im' golli un mor llon. Bu farw'i anwyl wraig tua deunaw mis yn ol, a chanlynodd yntau'n dra buan wedi hynny, a chollodd y teulu'r ddau. Gadawsant saith o blant ar ol, ond yn ffodus, y mae'r ieuengaf ohonynt bron gweled pedair-blwydd-ar-ddeg oed. Cymerodd ei angladd le prynhawn dydd Mawrth canlynol, pryd y daeth llu mawr ynghyd i weled cuddio gwedd cyfaill yn y graian. Hyderwn y gwna'r plant ymroi fel un llaw eto, er mwyn y marw, ond yn bennaf er mwyn y byw. Fyred yw braich o gnawd i helpu'r marw,—helpwn y marw pan fo byw. Gwasanaethodd y Parch. D. G. Rees, ei weinidog, a chynorthwywyd gan y Parchn. D Johns, Gosen, a Ll. Boyer, Danygraig.

Dy 'fynd' di, ofnadwy awr!—O!
William!
Gwae im' weled d'elawr;
Ing erys drwy fy ngorawr
Heb dy bresenoldeb nawr.

Mehefin 9, Mrs. Lizzie Evans, priod Tom Evans, Clarence, Cwrtnewydd, ac Alltgoch, ger y lle. Gwanaidd iawn oedd ei hiechyd er's blynyddau, ac yr oedd yn gystuddiol er's mwy na blwyddyn. Yr oedd o anian hapus ac o yspryd gobeithiol, a daliodd drwy ei gwendid a'i chystudd i fod yn siriol hyd y diwedd. Un o'r rhai mwyaf llednais ei thymher ydoedd: yr oedd' bob amser yn dawel a di-dwrw. Meddai

ar deimlad caredig ac ewyllys dda tuag at bawb. Yr oedd ei chymeriad yn un mor loew, a'i rhinweddau yn rai mor wirioneddol ac anghymysg, fel yr oedd wedi enill pawb o'i chydnabod i'w pharchu a'i hanwylu yn fawr. Daeth y parch a'r anwyldeb hwn i'r amlwg ar ddydd ei hangladd, pryd y daeth torf fawr ynghyd, a phryd yr oedd pob wyneb yn y dorf yn amlygu galar a hiraeth mawr. Yr oedd yn aelod selog o Eglwys Capelybryn, a theimlir yno golled ar ei hol. Claddwyd yr lau canlynol ym mynwent Capelybryn. Gwasanaethwyd gan y Parch. L. Williams, Capelybryn, a chymerwyd rhan gan y Parchn. E. O. Jenkins, Llwynrhydowen ; E. Glyn Edwards, Cwrtnewydd, a T. O. Williams, M.A., Llanbedr. Gadawodd briod a dau o blant, dau frawd a dwy chwaer, ynghyd a pherthynasau agos eraill, mewn galar mawr. Amddiffyn y Tad Nefol fyddo dros y priod a'r plant.

MEHEFIN 11, yn 90 oed, ar ol cystudd byr, bu farw Mrs. Elizabeth Jones, Gelligaer, aelod hynaf Eglwys Caeronen. Yr oedd wedi bod yn ffyddlon ar hyd y blynyddoedd, ac er pellder y ffordd anaml yr oedd ei lle'n wâg. Yr oedd ei chôf hyd y diwedd yn fyw, ac yr oedd fel cronicl o hanes yr ardal. Gwraig dawel, digynnwrf ydoedd, a charedig o rodiad. Yr oedd fel dolen megis rhwng yr amser gynt a heddyw, ond ei lle nid edwyn ddim ohoni mwy. Y dydd Gwener dilynol, daearwyd ei gweddillion marwol yn naear hen fynwent Caeronen. Gwasanaethwyd yn y ty (yn absenoldeb y Gweinidog mewn angladd arall) gan y Parch. J. D. Jones, Capel Erw, a gwasanaethwyd yn y Capel ac ar lan y bedd gan y Gweinidog gyda chynorthwy caredig y Parch. R. C. Jones. Gadawodd blant, wyrion, a llu o berthynasau, i wylo'u colled ac i ddiolch i Dduw am ei benthyg cyhyd.

MEHEFIN 12, yn 89 mlwydd oed, Rachel, gweddw y diweddar Evan Bevan, Trebanos. Wedi oes faith, lafurus, daeth dydd yr ymddatodiad. Dyma brofiad gwerth ei feddu. A gallodd ein hen fam anwyl edrych yn ol dros ysgwyddau tua phedwar ugain mlynedd, a chofio'r cyfan. Yr oedd pob digwyddiad yn fyw o'i blaen. Clywais ganddi lawer am droion ei chyfnod boreol, nes imi yn aml deimlo fy hun hyned a hithau. Ymhyfrydai yn y gwaith o adrodd ei hanes i'r ieuanc, fel petai am ddweyd yr oll cyn dyfod o awr ei symudiad. Blaenodd ei hanwyl briod hi tua un-flynedd-ar-bymtheg yn ol. Gwag mwyach fydd ei lle ar yr aelwyd, a llwm fydd yr amgylchedd heb ei gwyddfod, ond dyma natur troion dyrus yr anial, a rhaid plygu yn ostyngedig. Cymerodd ei chynhebrwng le y dydd Sadwrn dilynol, a chladdwyd yng Ngellionen. Gweinyddwyd gan y Parch. Daniel Johns, Gosen, ym mha le y bu'n aelod dymhor maith, a chynorthwywyd gan y Parchn. D. G. Jones, Soar, Pontardawe ; Albert Jones, B.A., Carmel, Clydach, a D. G. Rees, Graig a Gellionen. Mae'r plant bob un, fel y mae ffodusaf, wedi dod i ystadau cyfrifol yn y byd, a bydd i ddydd angladd eu mham beri iddynt un ac oll gofio'n hir am dani.

MEHEFIN 16, ar ol cystudd caled, bu farw Jane Jones, anwyl briod David Jones, Rhosowen, plwyf Cellan. Nid oedd yr ymadawedig wedi mwynhau iechyd da er's tro bellach, ond daeth y diwedd yn anisgwyliadwy bron, gan adael priod a phlant, heblaw chwiorydd a brawd mewn hiraeth ar ei hol. Y dydd Mercher dilynol, daearwyd ei gweddillion marwol ym mynwent Eglwys Brondeifi. Gwasanaethwyd gan y Parch. T. O. Williams, M.A., gyda chynorthwy caredig y Parchn. R. C. Jones a D. Conwil Evans. Nerth gaffo'r teulu i alaru'n gymhedrol ar ei hol.

MEHEFIN 19, yn dra anisgwyliadwy yn y diwedd, bu farw Thomas Thomas, Llwyn, Llanbedr. Nid oedd yr ymadawedig wedi mwynhau iechyd cryf er's wythnosau bellach,

ond i bob ymddangosiad yr oedd yn gwella, ac ar ddydd ei farw yr oedd allan, ond daeth y diwedd megis ar amrantiad. Yr oedd yn un o amaethwyr parchusaf yr ardal, yn wr tawel a diymhongar, caredig a mwyn. Y dydd Sadwrn dilynol, daearwyd ei weddillion ym mynwent Eglwys Sant Pedr. Gwasanaethwyd yn y ty gan y Parchn. J. N. Evans, rheithor Cellan; T. O. Williams, M.A., a Lewis Williams, Alltyplaca, ac yn yr Eglwys gan y Rheithor a'r Curad. Gadawodd briod, dau fab, a phum' merch, mewn galar dwys ar ei ol, a bydded iddynt ymdawelu ar fraich y Cariad Tragwyddol o golli tad tyner a phriod hynaws.

MANION AC HANESION.

TRYSORFA GYNNORTHWYOL YR YMOFYNYDD.—Derbyniwyd a ganlyn :—Mr. a Mrs. Lloyd, Blaenffynnon, Llandyssul, 10/-. Danfoner tanysgrifiadau i Olygydd YR YMOFYNYDD, Llandyssul.

CWM.—Traddodwyd Darlith yn y Capel hwn, nos Wener, Ebrill 27. Y darlithydd oedd y Parch. E. O. Jenkins, Llwynrhydowen. Hwn oedd y tro cyntaf i ni glywed Mr. Jenkins yn darlithio, a barn pawb oedd ei fod yn ddarlithydd galluog a dyddorol iawn. Llawenhawn am fod gennym, o blith ein hunain fel Undodiaid Cymreig, un a all gyflawni y gwaith hwn mor foddhaol. Yr oedd yr elw yn myned i Mr. Tom Morgan (ieu.), Penrhiwfach, Llanwenog, yr hwn sydd wedi bod yn Ysbytty Aberystwyth, am dair blynedd, ac wedi cael adferiad hollol.

BWLCHYFADFA.—Prynhawn dydd Gwener, Mai 25, cafodd aelodau Eglwys ac Ysgol Sul y lle uchod wledd ardderchog iawn o dê a bara brith a bron bob danteithion y gallesid meddwl am danynt. Rhoddwyd y tê gan deuluoedd Castellhywel Arms., Glandwr a Clettwr Vale, ac maent yn haeddu diolchgarwch cynhes iawn am y ddarpariaeth odidog. Oer oedd yr hin, er hynny daeth llu mawr ynghyd, a chafwyd prynhawn hapus a llawen. Wedi gorffen a'r tê cafwyd awr o chwareu yng nghae Gwarallt ferdre, ac wedi gorffen a'r chwareu cafwyd cyfarfod o adrodd a chanu o dan lywyddiaeth Mr. Thomas Thomas, Greengrove. Arweiniwyd yn hwylus, fel arfer, gan y Cynghorwr Evan Davies, Llaindelyn.

Y GRAIG A GELLIONEN.—Yn y Graig, nawn a hwyr Sul, Mehefin 3, y cawd ein Cyrddau Adrodd tri-misol, dan nawdd yr Ysgol Sul. Yn y cyntaf, rhaglen y plant oedd, a gwnaethant yn ardderchog gyda llywyddiaeth Mr. Isaac Emrys Hopkin; ac yn yr ail gyfarfod, y cymerodd y rhai mewn oed, gan mwyaf ran, a than arweiniad Mr. J. J. Williams. Arolygydd yr Ysgol Sul fu'n gyfrifol am y ddwy raglen, a llwyddodd i wneud casgliad da mewn llen a cherdd. Cyfeiliwyd gan Mri. H. H. Morgan, Isaac Emlyn Hopkin, a D. W. Thomas, Gellinudd.

CWM.—Cynhaliwyd Cymanfa Ysgolion Sul yn y lle hwn, Mehefin 1, pryd y daeth ynghyd ysgolion y Cwm, Capelybryn, Cribyn, Rhydygwin a Chiliau. Holwyd hwy gan y Parchn. D. Conwil Evans, L. Williams, a D. Evans. Aeth pob un o'r ysgolion drwy eu gwaith mewn modd rhagorol iawn. Yr oedd y cyflawniadau drwy y dydd y fath fel ag yr argraffwyd ar ein meddyliau fod gwaith da yn cael ei wneud. Cyfranodd y canu

ardderchog oedd yno o dan arweiniad Mr. James Thomas tuag at greu naws grefyddol yn y cyfarfodydd, a theimlai pawb mai da oedd bod yno. Cafwyd benthyg *Organ* Blaeneinon erbyn yr amgylchiad, a theimla yr eglwys yn ddiolchgar i Mr. a Mrs. Oliver am eu caredigrwydd. Yn yr hwyr cynhaliwyd *Rehearsal*, o dan arweiniad y Parch. T. A. Thomas, Llandyssul. Cyfeiliwyd ar hyd y dydd gan Mr. Dewi Oliver, Blaeneinon, a Miss Jenkins, Blaenwaunuchaf. Rhoddodd pobl y Cwm dderbyniad croesawgar i'r dieithriaid drwy ddarparu yn helaeth ar gyfer eu angenrheidiau.——Sul, Mehefin 10fed, ymwelodd aelodau Ysgol Sul Brynteg a'r eglwys hon. Adroddasant bennod o'r Ysgrythyr, a holwyd hwy gan y Parch. L. Williams. Canodd y plant a'r côr amryw o weithiau o dan arweiniad Mr. John Rees, Bryneinon. Yr oedd yr adroddiad, a'r atebion, a'r canu yn amlygu llafur mawr.

Apel at Undodiaid Cymreig Llundain.—Yn Eglwys Undodaidd Fort Road, Bermondsey, Deheubarth Llundain, y mae angen mawr am ryw un galluog a brwdfrydig i arwain y canu. Ar y cyfan, y mae y canu cynulleidfaol yn Fort Road yn dra hwylus—yn fwy hwylus o lawer nag yn y mwyafrif o Eglwysi Undodaidd y Brifddinas. Yno, hefyd, y mae defnydd rhagorol i godi côr ym mysg y bobl ieuainc, ond nid oes yno neb ddigon galluog, neu yn hytrach ddigon brwdfrydig, i gymeryd yr arweiniad yn y cyfeiriad yna; tra ym mhlith holl "gantorion" y cyfundeb Undodaidd Seisnig yn y ddinas fawr, ymddengys nad oes neb mor hunanymwadol a dyfod i le tlawd fel Bermondsey am awr neu ddwy bob wythnos i gyfarwyddo'r bobl ieuainc mewn caniadaeth gysegredig! Yr wyf yn ryw ychydig o gerddor fy hunan, ond nid o lawer yn ddigon cyfarwydd mewn caniadaeth i arwain côr. Os gŵyr rhai o ddarllenwyr Yr Ymofynydd am ryw Gymro neu Gymraes yn Llundain fuasai mor garedig a dyfod atom i Fort Road i arwain y gân, ac i godi tipyn o gôr, buasai yn cael croesaw cynes a chalonog gan bawb, ac yn enwedig gan y gweinidog a'i wraig, a chan haid o bobl ieuainc. Da chwi, ryw Gymro neu Gymraes fedr ganu, deuwch atom i Fort Road, i lawenhau ein calonnau, a thrwy gân a moliant i lawenhau calonnau llaweroedd ereill o drigolion ynys Bermondsey, a mawr fydd eich gwobr!—D. Delta Evans, Fort Road Church, Bermondsey, S.E.1.

Bedyddio'r Baban. —— Yn y flwyddyn 1849, blwyddyn y Colera, aeth gwraig—Gwyddeles-at y Parch. Owen Evans, Cefncoed, i fegian arno ddyfod i fedyddio ei baban, yr hwn oedd yn glaf iawn. Gwrthodai Mr. Evans, a cheisiai ganddi fynd at yr offeiriaid, neu rywun arall. Taer erfyniai y wraig, ac mor daer a hynny gwrthodai Mr. Evans. Os oedd peth ofn arno, yr oedd hynny yn bur esgusodol dan yr amgylchiadau. Am hir amser yr oedd yn amheus iawn pa un a enillai'r dydd. Ceisiai Mr. Evans ganddi fynd at un o'i henwad ei hunan. Nid hawdd hynny. Nid oedd yr un offeiriad Pabaidd nac Eglwysig ar y Cefn y pryd hwnnw. Wrth gwrs, nid oedd Mr. Evans yn gweld pwysigrwydd y mater na'r angen am frys. O'r tu arall yr oedd y wraig wedi ei dysgu i gredu, fod pob plentyn fyddai heb ei fedyddio yn golledig—nad oedd dim yn ei aros ond mynd i uffern ar ei union. Mynai'r wraig ei achub rhag hynny os oedd yn bosibl iddi. Dyna'r athrawiaeth y dysgwyd hi ynddi. Dyna athrawiaeth Eglwys Rhufain, a dyna athrawiaeth Eglwys Loegr—dyna ddysgir yn y Llyfr Gweddi Gyffredin. Yr oedd y wraig yn naturiol yn awyddus i achub ei phlentyn, ac o'r tu arall nid oedd Mr. Evans yn credu fod yr un perygl. Parhaodd y mynd a dod ar ran y wraig am hir amser. Ac o'r diwedd y mae Mr. Evans yn ildio i daerineb y wraig, ac yn mynd gyda hi ac yn

bedyddio y baban er mawr lawenydd i'r wraig. Yn mhen tua phythefnos, mwy neu lai, dyna'r wraig, yn siriol a hapus yr olwg arni, yn ymweled a Mr. Evans drachefn, a chanddi ddwsin o wyau ffres a hardd yr olwg, yn rhodd i Mr. Evans am ddyfod a bedyddio'r baban, yr hwn, ebe hi, a dechreuodd wella o'r dydd y bedyddiwyd ef, a pharhaodd nes dyfod yn globyn iach.—S.N.S.

YSPRYDOLIAETH.—Mae yn syndod fel mae'r camgyfieithad o eiriau Paul yn ei ail Epistol at Timotheus (3 : 16) wedi helpu i gadw ac i gynnal y syniad poblogaidd am y Beibl. Edrychir arno fel pe byddai yn ddim ond un llyfr, a hwnnw yn gyfwerth o'i ddechreu i'w ddiwedd—oll yn yspryduledig ac oll yn gyffelyb anffaeledig. Coleddir syniad cyffelyb gan y Mohametaniad am ei Feibl ef—yr Alcoran. Yn lle bod yn ddim ond un llyfr mae'r Beibl yn llyfr cyfansawdd. Mewn gair, dyma lyfrgell yr Iuddew. Cynwysa ddwy ran, a gelwir y rhai hynny gennym ni heddyw—yr Hen Destament a'r Testament Newydd. Mae yn yr Hen Destament, a gadael heibio'r Apocrypha, 39 o lyfrau. Yn y Testament Newydd (yr hwn nid yw yr Iuddew yn ei gydnabod, er mai iddo ef yr ydym yn ddyledus am dano) y mae 27 o lyfrau, ac yn eu plith y mae Timotheus, ac yn hwnnw mae'r adnod a grybwyllir uchod. Dyma fel y mae'n darllen : '*Yr holl Ysgrythyr* sydd wedi ei rhoddi gan ysprydoliaeth Duw,' &c. Tebyg i hyn yr ysgrifennodd y Deon Burgess, yn 1861 – 'Y Beibl nid yw yn ddim amgen na llais yr Hwn sydd yn eistedd ar yr orsedd. Mae pob llyfr o honno, pob pennod o honno, pob adnod o honno [yn mha le yr ydym i aros ?], pob llythyren o hono, yn adroddiad uniongyrchol o eiriau yr Hwn sydd yn eistedd ar orsedd, heb ddiffyg, heb gyfeiliornad.' Darllener geiriau y Deon dysgedig yn fanwl ac yn ystyriol, nes cael gafael, os yn bosibl, yn yr hyn oedd meddwl yr ysgrifennydd, ac ar ol hynny darllener geiriau Paul, fel y maent yn y Cyfieithad Diwygiedig Seisnig.—'Every Scripture inspired of God is also profitable,' &c. Edrycher y Testament Saesneg. Cymreigiwn y geiriau fel hyn : Pob ysgrythyr, wedi ei rhoddi gan ysprydoliaeth Duw, sydd *fuddiol* hefyd, (1) i athrawiaethu, (2) i argyhoeddi, (3) i geryddu, (4) i hyfforddi mewn cyfiawnder, *fel y byddo* dyn Duw yn berffaith, wedi ei berffeithio i bob gweithred dda ! ! Onid oes yna fyd o oleuni gwerthfawr yn cael ei daflu ar yr adnod yn ei gwisg newydd. Nid yw yn ateb cystal, feallai, i ofynion y gyffes a'r gredo ; ond fel ag y mae, onid yw yn gyson a holl ofynion rheswm a deall da, ie, yn gyson a'r gore y gwyddom am dano ? Gesyd ger ein bron nodau eglur wrth y rhai y gallwn ddeall pa beth i'w dderbyn, a pha beth i'w wrthod ?

LLWYDDIANT.—Yr oedd yn bleser gennym weled enw y Parch. T. Oswald Williams, Llanbedr, ymhlith y rhai enillodd y gradd o M.A. ym Mhrifysgol Cymru Dymunem ei longyfarch yn y modd mwyaf calonog ar ei lwyddiant.

DIFYRRWR Y DORF.—Y mae yn bleser gennym alw sylw at y llyfryn bychan hwn gan Mr. Derwenydd Morgan, Pencader. Cynhwysa ddarnau barddonol, difyr a sylweddol, i'w hadrodd a'u canu mewn cyngherddau, &c. Cawsom lawer o flas wrth ei ddarllen, a diau y gwneir defnydd helaeth ohonno ar y llwyfan. Cymeradwywn ef yn galonog, yn arbennig i fobl ieuainc ein gwlad. Y mae wedi ei argraffu'n ddestlus gan D. Jones, Pencader. Pris, 1s. 3c.

YR oedd pentre ar gopa mynydd Penrhys, ger Aberdar, yn amser Owen Glyndwr.

JOSIAH REES, Gellionen, gychwynodd y Cylchgrawn cyntaf yng Nghymru, medd rhai. Ymddangosodd 15 rhifyn.

PENILLION

Gyfansoddwyd ar ol gwel'd a chlywed Mr. T. Hopkin Evans, Mus Bac., yn arwain Cymanfa Ganu Undodiaid Ceredigion, 1923.

Craig Nedd, mewn hedd mae'i aelwyd,
Adsain o'r graig y'i naddwyd ;
Arweinia'r wlad yn gôr i gyd
Cantorion byd wna ysgwyd.

Gwr mawr yn wir yw'n gwron,
Gwir gariad yn ei galon ;
Estyna'i law tuag atom ni
Sy'n tynu tua'r afon.

Fe wêl, fe deimla anian,
A'r harddwch sydd ym mhob man,
Y coed, y llysiau, blodau blydd,
A'r ffrwythau sydd yn hongian.

Gwel dderyn ar y brigyn,
A'r afon i êd drwy'r dyffryn ;
Maesffynonoer.

Y nentydd oll drwy gymmoedd cul,
A dynnant sylw Hopkin.

Pan ddêl y storm a'r ddrycin
A'r deilchion lwch yn ddychryn,
Dehongliad gawn o'r alaeth hon
O ddofn fron ein Hopkin.

Y lloer a'r sêr yn fore,
A'r haul yn rhodio'r gwagle,
Y nef, ei sylw'n tynnu sydd,
Waeth yno fydd ei gartre'.

Hir oes, ddigroes o hawddfyd,
I Hopkin, blodyn bywyd ;
Nes caffo roesaw gan ei Dad
I ganu yng ngwlad y gwynfyd.

DAVID HUGHES.

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

CYNHELIR

Cyfarfodydd ❀ Blynyddol

Y GYMDEITHAS UCHOD YNG

NGHAPEL RHYDYGWIN.

Dyddiau Mercher ac Iau, Awst 1 a 2, 1923.

Trefn y Cyfarfodydd—

Nos Fercher am 6.30		-	-	Dwy Bregeth.
Dydd Iau am	9.30	-	-	Pwyllgor y Gymdeithas.
„ „	10.30	-	-	Araeth y Llywydd.
„ „	2	-	-	Dwy Bregeth.
„ „	6	-	-	Dwy Bregeth.

Danfonir yn brydlon y manylion pellach i'r gwahanol Eglwysi.

Rhydd Eglwys Rhydygwin groesaw cynhes i bawb, a dymuna felly am Gyfarfodydd lluosog a da.

J. D. Lewis, Argraffydd, &c., Gwasg Gomer, Llandyssul.

JUST PUBLISHED.

Cr. 8vo. Cloth 2/- net, Stiff Covers 1/6 net.

THE AUTHOR OF

NEARER, MY GOD, TO THEE

(SARAH FLOWER ADAMS)

By H. W. Stephenson, M.A.

The illustrations include a reproduction in facsimile of the original MS. of the hymn, "Nearer, my God, to Thee."

This Hymn, which first appeared in the Hymn Book of the South Place Unitarian Chapel, Finsbury, E.C., is more widely known than any other by a Unitarian writer. It is the expression of a faith that had endured many doubts and, at one time, seemed as though it would pass utterly away. This Memoir brings together all that is known of the life story of Mrs. Adams. Ministers and Teachers in Sunday Schools will do well to add it to the books already on their shelves; they will find it not only readable but useful as well.

Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, London, W.C.2

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

ROSE TREES, TOMATO PLANTS, BEGONIAS, GERANIUMS,
. . . LOBELIAS, PALMS, FERNS, &c. &c. . . .

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875.)

Importer of Dutch Bulbs, Seedsman and Florist,
Carmarthen. Telegrams—Coysh, Carmarthen.

E. LLOYD JONES

BRADFORD HOUSE

LLANDYSSUL

For Suits and Costumes to order from 50s.

.. Mourning at Shortest Notice. ..

— Satisfaction Guaranteed. —

LONDON JOINT CITY AND MIDLAND BANK LIMITED

CHAIRMAN:

The Right Hon. R. McKenna

JOINT MANAGING DIRECTORS:

Frederick Hyde **Edgar W. Woolley**

Subscribed Capital	**£38,117,103**
Paid-up Capital	**10,860,852**
Reserve Fund	**10,860,852**
Deposits *(Dec. 31st, 1922)* ..	**354,406,336**

Local Offices:

Llandyssul: 9, Lincoln Street

PENCADER | PONTTWELLY

Manager: R. W. ROBERTS

Over 1,700 Offices in England and Wales

Head Office:

5, Threadneedle Street, London, E.C.2